

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

Dyddiad:	Dydd Mercher 3 Gorffennaf 2002
Amser:	2.00 to 5.00 pm
Lleoliad:	Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

RHAGLEN GORFFORAETHOL**PARCIAU CYMRU 2003 - 2006****1. CEFNDIR**

1.1 Ffurfiwyd tri Awdurdod Parciau Cenedlaethol Cymru (APC) fel awdurdodau lleol annibynnol gyda diben arbennig ym mis Ebrill 1996 o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Pennir eu cyllid craidd, Grant y Parc Cenedlaethol, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i delir i'r APC ar raddfa o 75% o'r gwariant a gymeradwywyd gyda'r 25% sy'n weddill yn cael ei drethu ar eu Hawdurdodau Unedol cyfansawdd. Mae Grant y Parc Cenedlaethol yn cwmpasu'r gwariant refeniw a chyfalaf. Yn arferol, bydd y Parciau yn codi 50% o gyllid ychwanegol drwy gymhorthdal grant o gronfeydd Ewropeaidd a'r Loteri, asiantaethau lleol a phartneriaethau yn ogystal ag o ffioedd a godir.

1.2 Roedd cyfanswm setliad Grant y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2002-03 yn £8,529,000 (£11,372,000 o wariant a gymeradwywyd) cynnydd o 10.06% o'i gymharu â'r llynedd. Dynodwyd ffigwr cynllunio o £9,529,000 ar gyfer 2003-04, blwyddyn derfynol y cylch cyllido tair blynedd cyfredol. Croesawyd y dyraniad gwariant tair blynedd yn fawr gan ei fod wedi galluogi APC i baratoi rhaglen waith hir dymor â chryn hyder am y tro cyntaf.

1.3 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cyllido'r APC fel y gallant weinyddu Cronfa Datblygu'r Amgylchedd. Bydd £750,000 ar gael bob blwyddyn i noddi projectau amgylcheddol arloesol a chynladwy sy'n cynnwys cymunedau lleol y Parciau Cenedlaethol. Gobeithir y bydd y grant hwn yn cael ei ymestyn i 2003-04.

2. EIN RHAGLEN AR GYFER Y TAIR BLYNEDD NESAF**2.1 Blaenoriaethau**

Bydd ein rhaglen yn canolbwyntio ar ehangu mynediad cyhoeddus yn y Parciau Cenedlaethol tra'n gwarchod a gwella eu nodweddion arbennig. Ar y cyd â darpariaeth

gwasanaeth gwell, bydd hyn yn sicrhau symudiad tuag at gyflawni dyfodol positif a chynladwy ar gyfer y Parciau Cenedlaethol a'u cymunedau. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi dros y tair blynedd nesaf i wariant newydd ar:

- **Wella mynediad** – gweithredu'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn llwyddiannus a gwella llwybrau troed
- **Hyrwyddo Bioamrywiaeth** – gweithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a rheolaeth gynladwy o amgylchedd y tir ac amgylchedd y dŵr
- **Adfywio trefi ac adeiladau hanesyddol** – ymestyn cynlluniau tref a rhoi cymhorthdal grant i adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl er mwyn diogelu cymeriad arbennig y Parciau.
- **Monitro perfformiad ac Ystâd y Parciau** – datblygu data sylfaenol a systemau monitro i gofnodi newid a mesur perfformiad
- **Uwchraddio systemau electroneg a systemau gwybodaeth** – datblygu'r systemau cyfredol i gyd-fynd â datblygiadau technolegol a gwella darpariaeth gwasanaeth. Noder bod bid arbennig ar wahân yn cael ei wneud i ddiwallu targedau e-lywodraeth (Paragraff 3.1).

Bydd y blaenoriaethau, ynghyd â'r ymrwymadau anochel o flwyddyn i flwyddyn, megis dyfarniadau cyflog a chwyddiant, yn cael eu cyllido ar y cyfan o fewn y ffigur cynllunio ar gyfer 2003-04. Mae'r blaenoriaethau hyn yn rhannu amcanion ac yn golygu cydweithio ag asiantaethau eraill. Gellir crynhoi'r allbynnau sy'n codi ar gyfer nawdd ychwanegol yn 2003-04 fel a ganlyn.

Mae'r holl ffigurau bid a nodir yn Adran 2 yr adroddiad yn cynnwys y lefi o 25% ar yr Awdurdodau Unedol.

Blaenoriaeth	Gwella Mynediad	Hyrwyddo Bioamrywiaeth	Adfywio Trefi ac Adeiladau	Monitro Perfformiad	Uwchraddio Systemau Gwybodaeth
Bid 2003-04	£386,000	£203,000	£145,000	£75,000	£183,000
Amcanion a rannir a chydweithio	CCGC, AU, BCC, CC	CCGC, AU, AyA, CC	CADW, BCC, AU, ADC	CCGC, AyA, CC	AU, ADC

Allbynnau yn 2003-04	4 warden newydd, cynnal 300 km o Hawliau Tramwy Cyhoeddus, 150 mynegbost a 12 pont. Gwasanaethu Fforymau Mynediad y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy	Cynyddu arwynebedd y cynefinoedd a'r rhywogaethau sydd mewn cyflwr ffafriol 2.5%	Gweithredu 8 o gynlluniau tref ac achub 10 o adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl	Cyhoeddi adroddiad Ystâd y Parc yn flynyddol	Prif serfwyr newydd, systemau ffôn a gweithredu
-----------------------------	--	--	--	--	---

CCGC – Cyngor Cefn Gwlad Cymru

AU – Awdurdodau Unedol

AyA – Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

CC – Comisiwn Coedwigaeth

BCC – Bwrdd Croeso Cymru

ADC – Awdurdod Datblygu Cymru

2.2 Meysydd Allweddol Eraill

Mae'r APC wedi dynodi meysydd gwaith allweddol eraill i ddiwallu anghenion gwasanaeth a gwell darpariaeth gwasanaeth. Bydd y rhain angen nawdd dros ac uwchben y ffigur cynllunio. Ceir eu manylion yn y ddogfen bidio ond gellir crynhoi'r prif feysydd, yn nhrefn blaenoriaeth, fel a ganlyn:

Gweithgaredd Bid 2003-04	Diben	Canlyniad	Cyd- weithio

Swyddfa £192,000	Cyllido costau rhedeg uwch yn dilyn symud Bannau Brycheiniog a Phenfro i Bencadlys newydd	Bydd symud o'r swyddfeydd annigonol presennol yn gwella ansawdd gwasanaeth ac yn gwneud arbedion effeithlon	
Hyrwyddo Dealltwriaeth £158,000	Yn dilyn Adolygiadau Gwerth Gorau, ehangu ymwybyddiaeth y cyhoedd, ymestyn gwasanaethau gwybodaeth ac addysg a datblygu gwefannau ar gyfer pobl o bob oed	Cynnydd o 5% mewn ymweliadau â Chanolfannau'r PC, cynnydd o 10% yn y defnydd o wefannau'r PC, cynnydd yn y nifer o'r cyhoedd sy'n cymryd rhan yn nigwyddiadau'r PC	BCC CCGC
Cefnogi Amaeth a Choetiroedd £122,000	Ehangu arallgyfeirio amaeth-amgylcheddol, a mentrau marchnata, drwy gyngor, arweiniad a chymorth. Cefnogi gweithredu "Ffermio ar gyfer y dyfodol" a "Strategaeth Coetiroedd Cymru"	Mabwysiadu amgylchedd naturiol ac economi gwledig cynaladwy, ffyniannus a iach	ADC CCGC AyA CC

Gweithgaredd Bid 2003-04	Diben	Canlyniad	Cyd- weithio
Mentrau Trafnidiaeth, Twristiaeth a Chymunedol £84,000	Rhaglenni partner i ddatblygu mentrau trafndiaeth a thwristiaeth cynaladwy ac integredig, a chynnwys y cymunedau lleol	Gwell mynediad o fewn, ac i, Barciau Cenedlaethol; amgylchedd o ansawdd gwell. Partneriaethau cymunedol ehangach	AU BCC CCGC ADC

Treftadaeth Ddiwylliannol - Archeoleg £64,000	Mewn partneriaeth â CADW, gwarchod a dehongli cyfoeth y safleoedd archeolegol a'r safleoedd treftadaeth	Rhaglen estynedig o arolygu ac atgyfnerthu safleoedd allweddol. Cynhyrchu deunyddiau deongliadol	CADW
Cynllunio £178,000	Yn dilyn yr adolygiadau Gwerth Gorau, cyfnerthu rheolaeth a gorfodaeth cynllunio. Datblygu'r Cynlluniau Datblygu Unedol a Chynlluniau Datblygu'r Parc	Darpariaeth fwy effeithiol a chyflym o wasanaethau rheoli datblygu, cyfrifoldeb statudol Awdurdodau'r Parciau	AU
Corfforaethol £72,000	Rhagweld cynnydd mewn datblygu a hyfforddi Aelodau i ddiwallu'r rhaglen berfformiad newydd. Gwella darpariaeth cynllun a ffynonellau nawdd allanol	Gwella cyfranogiad a pherfformiad yr Aelodau. Dwyn lefel uwch o arian cyfatebol i mewn.	Syniad CCGC ADC BCC
Datblygu Canolfannau'r Parciau Cenedlaethol £125,000	Datblygu safleoedd a chanolfannau allweddol y Parciau Cenedlaethol yn sylweddol	Hyrwyddo dealltwriaeth o'r Parciau a chefnogi'r economi twristiaeth	BCC CADW

Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn ceisio cyfanswm cynnydd o £2,407,000 yng Ngrant y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2003-04, gan gynnwys bidiau o £1,074,000 dros ac uwchben y ffigwr cynllunio mynegol.

Mae cyfanswm yr adnoddau ychwanegol angenrheidiol yn y blynyddoedd canlynol, dros ac uwchben cyllideb sylfaenol 2002-03, yn £4,033,000 yn 2004-05 a £5,675,000 yn 2005-06.

3. BIDIAU ARBENNIG

3.1 Cyflwynir yr achosion arbennig am nawdd o'r tu allan i adnoddau arferol y Parc Cenedlaethol yn nhrefn eu blaenoriaeth gan y tri Pharc fel a ganlyn:

E-Lywodraeth

Adnoddau i ddiwallu targedau e-lywodraeth sy'n gymharus â'r rhai a ddarparir i awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ac ym Mharciau Cenedlaethol Lloegr

2003-2004 : £375,000

2004 - 2005 : £825,000

Cronfa Datblygu'r Amgylchedd

Adnoddau i ymestyn Cronfa Datblygu'r Amgylchedd, sy'n llwyddiannus iawn, am dair blynedd arall

£750,000 y flwyddyn

Arolwg Ymwelwyr yr Holl Barciau

Adnoddau i gynnal Arolwg Ymwelwyr yr Holl Barciau yn 2004-05

2004 - 2005 : £75,000

Adeilad Copa'r Wyddfa

Mae Eryri yn gofyn am gyfanswm ychwanegol o £1 miliwn o arian cyfatebol ar gyfer adeilad newydd copa'r Wyddfa yn 2003-2004 a 2004 – 2005

2003-2004 : £400,000

2004 - 2005 : £600,000

Pencadlys Newydd ar gyfer Bannau Brycheiniog

Mae Bannau Brycheiniog yn gofyn am gyfanswm ychwanegol o £3 miliwn ar gyfer pencadlys newydd (yn hytrach na phrydlesu)

2003-2004 : £1 miliwn

2004 - 2005 : £2 filiwn

Ymchwiliad Cynllun Datblygu Unedol Bannau Brycheiniog

Er mwyn diwallu cost amcangyfrifedig ymchwiliad y CDU

2003-2004 : £60,000